


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerk@cyngortrefrhuthun.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Dafydd Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

20 Ebrill 2015

At Faer y Dref a'r Cynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 27 EBRILL 2015 am 7:00 p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

Dafydd Williams

Dafydd Williams
Clerc y Dref

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.

3. ADRODDIAD Y MAER

4. ADRODDIADAU'R AELODAU

5. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

I dderbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2015.

6. MATERION YN CODI

7. PWYLLGOR AMWYNDERAU

I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2015.

8. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

I dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2015.

9. IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

I dderbyn a mabwysiadau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2015.

10. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(a) CYMDEITHAS SIOE RHUTHUN

I dderbyn llythyr gan Drysorydd y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad tuag at gostau'r sioe eleni gynhelir yn Llanfwrog – mae £1,300.00 yn y gyllideb.

(b) CYMDEITHAS EFEILLIO RHUTHUN

I dderbyn llythyr gan Ysgrifennydd y Mudiad uchod yn gofyn am y cyfraniad blynyddol o £500.00 tuag at gostau'r Gymdeithas Efeillio - mae £500 yn y gyllideb.

(c) YMLAEN RHUTHUN

I dderbyn Cais am Gymorth Ariannol (ynghyd a manylion ariannol) gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad o £500.00 tuag at gostau Carnifal Rhuthun eleni (copiau glas).

11. DIWRNODAU PARCIO RHAD AC AM DDIM

I ystyried Diwrnodau Parcio Rhad ac am Ddim ar gyfer 2015 - mae pum diwrnod ar gael.

12. GWOBRWYON DINESYDD DA 2015

I dderbyn rhagor o fanylion gan gynnwys enwebiadau ar gyfer y Gwobrwyon.

13. MUDIAD 'CITTASLOW'

I dderbyn adroddiad ar lafar ar gyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Neuadd y Dref.

14. CYFRIFON AM Y FLWYDDYN DYN DIWEDDU 31 MAWRTH 2015

I dderbyn a chymeradwyo'r Cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2015 (amgaeedig).

15. DATGANIAD ARIANNOL

I dderbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 31^{ain} Mawrth 2015 (copi gwyrdd).

16. CYFRIFON I'W TALU

706	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
707	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		163.20
708	Clwb Rotary Rhuthun	Cyfraniad tuag at Rasys Mulod a Diwrnod Hwyl		500.00
709	Cymdeithas Ddinesig Rhuthun	Cyfraniad – Drysau Agored Sir Ddinbych		1,000.00
710	Eglwys Sant Pedr	Canu'r Hwyrngloch		156.00
711	Dafydd Williams	Gwrth-firws Norton		39.99
712	Blachere Illuminations	Hurio Goleuadau Nadolig - 2 ^{ail} flwyddyn o 3.	*	5,768.75
713	Fineline Printing & Stationery	Cyflenwad swyddfa	*	30.84
714	Groundworks NorthWest	Cyflenwi a gosod 2 set o siglen a chadwynau yn Ardal Chwarae Plant, Caeau Chwarae Cofeb.	*	222.00
715	Scottish Power	Goleuadau Nadolig 2014 /15	*	95.63
716	Boyns	Cyfrifiadur Newydd i'r swyddfa	*	1,168.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £1,218.07)

17. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF

I gadarnhau dyddiadau cyfarfodydd nesaf o'r Cyngor Tref fel a ganlyn:

Cyfarfod Blynyddol – Nos Lun, 11 Mai 2015 yn Swyddfeydd y Cyngor, Neuadd y Sir am 7:00 p.m.

Cyfarfod Arferol - Nos Fawrth, 26 Mai 2015 yn Swyddfeydd y Cyngor, Neuadd y Sir am 7:00 p.m.